Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Senedd Cymru | Welsh Parliament
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol | Equality and Social Justice Committee
Ymateb gan: Comisiynydd y Gymraeg | Evidence from: Welsh Language Commissioner

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

19/06/2025

Annwyl Gadeirydd,

**Ymgynghoriad: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Gwaith craffu ar ôl deddfu**

Sefydlwyd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Mesur yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i wneud unrhyw beth sy'n briodol yn nhyb y Comisiynydd i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ac er mwyn gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. O ganlyniad i adran 26 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae Comisiynydd y Gymraeg yn aelod o Fwrdd Cynghori Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn sgil ein dyletswydd fel Comisiynydd y Gymraeg bydd ein hymateb yn canolbwyntio yn benodol ar i ba raddau mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) wedi arwain at gynnydd mewn perthynas â'r nod llesiant o 'Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

Wrth geisio ateb y cwestiwn hwn mae'n anorfod bod angen ystyried traweffaith y ddeddf o fewn cyd-destun Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Mesur eisoes yn gosod gofynion penodol ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac mae gan Gomisiynydd y Gymraeg gyfrifoldebau a phwerau rheoleiddio i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan gyfundrefn safonau'r Gymraeg.

Mae bellach dros 130 o sefydliadau cyhoeddus yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg, sydd yn cynnwys yr holl gyrff cyhoeddus sy'n dod o dan ddyletswydd llesiant Deddf Cenedlaethau'r

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Dyfodol. Mae safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswyddau eang ar gyrff cyhoeddus. Gellir rhannu'r dyletswyddau hyn i bum prif faes:

**Comisiynydd y Gymraeg**
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Caernarfon
LL55 1TH

[redacted]

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**
Unit 2, Block C
Victoria Dock
Caernarfon
LL55 1TH

[redacted]

**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales

- **Cyflenwi gwasanaethau** – mae hyn yn cynnwys materion fel gohebiaeth, ateb y ffôn, cyfarfodydd, cyhoeddi dogfennau, cynnal gwefannau a sianeli cyfryngau cymdeithasol, arwyddion ac ati.
- **Gweithredu** – mae hyn yn cynnwys materion yn ymwneud â defnydd mewnol o'r Gymraeg o fewn sefydliadau, recriwtio, a hyfforddiant ieithyddol i staff.
- **Cadw cofnodion** - mae hyn yn cynnwys materion yn ymwneud â chwynion, a hefyd asesiad o sgiliau ieithyddol staff.
- **Llunio polisi** – mae dyletswydd ar nifer o gyrff cyhoeddus i ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg ac i ystyried sut y gellid addasu'r polisi er mwyn cael effeithiau mwy positif ar y Gymraeg.
- **Hybu** - mae dyletswydd ar awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol i lunio strategaethau hybu 5 mlynedd sy'n esbonio sut byddant yn mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eu hardaloedd.

Fel y gwyddoch, un o nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Drwy gynnwys y Gymraeg yn un o'r nodau llesiant mae dyletswydd ar gyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf i osod amcanion llesiant fydd yn cyfrannu i'r eithaf at gyflawni nodau llesiant y Ddeddf. Mae hefyd ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gymryd pob cam rhesymol (drwy arfer ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny. I bob pwrpas felly mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i weithredu mewn ffyrdd fydd yn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn ffynnu yn y dyfodol. Croesawn hyn.

**I ba raddau y mae amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu cyflawni**

Gan fod y ddwy gyfundrefn ddeddfwriaethol yn rhannu nifer o'r un amcanion cyffredinol o safbwynt y Gymraeg mae'n anodd llunio casgliadau pendant ynghylch yr effaith benodol mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i chael o safbwynt y Gymraeg. Hynny yw, mae'n

anodd ynysu effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol oddi wrth effaith cyfundrefn safonau'r Gymraeg a hefyd gwaith ystod eang o bartneriaid eraill sy'n cyfrannu at agenda Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Er gwaethaf hyn does dim dwywaith bod y Ddeddf a gwaith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ategu ac yn cefnogi gwaith Comisiynydd y Gymraeg. Yn y cyd-destun hwn rydym yn cydweithio yn agos ac yn effeithiol, ac rydym yn manteisio ar gyfleoedd i gydlafurio er mwyn cyflawni i'r eithaf.

Mae canfyddiadau cyffredinol adroddiad Archwilio Cymru ar weithrediad y Ddeddf[1] yn nodi bod tystiolaeth glir bod y Ddeddf yn dylanwadu ar y ffyrdd mae cyrff cyhoeddus yn cynllunio ac yn gweithredu. Er hyn mae hefyd yn nodi nad yw'r ddeddf hyd yma wedi symbylu'r newid system gyfan a fwriadwyd. Mae adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 Comisiynydd

[1] Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cenedlaethau'r Dyfodol[2] hefyd yn casglu bod gwaith sylweddol i'w wneud er mwyn sicrhau bod egwyddorion y Ddeddf yn cael eu gwireddu, a bod y bwlch rhwng polisi a gweithredu yn lleihau.

O safbwynt y Gymraeg yn benodol mae adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi bod diffyg ffocws strategol ar ddiwylliant a'r iaith Gymraeg o fewn amcanion llesiant cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r adroddiad yn argymell bod angen mwy o ffocws cyson ar ddiwylliant a'r Gymraeg  a bod gwir angen i'r Gymraeg a diwylliant fod yn rhan ganolog o'r broses o gynllunio a gweithredu ar bob lefel er mwyn gweld cynnydd ystyrlon.

Heb os mae'r Ddeddf yn cyfrannu at sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ystyried y Gymraeg wrth gynllunio a gwneud gwahanol benderfyniadau. Er hyn, mae hefyd yn wir bod y Ddeddf a'i hieithwedd yn aml yn cael eu derbyn a'u trafod fel fframwaith polisi, ond nid o reidrwydd yn treiddio ac yn cael effaith wirioneddol ar y ffordd y caiff polisïau eu cynllunio, eu hariannu a'u gweithredu. Canlyniad hyn yw fod y Gymraeg ar brydiau yn ystyriaeth ymylol yn y broses o gynllunio a gweithredu gwahanol bolisïau.  Ceir gormod o enghreifftiau o benderfyniadau polisi a gwahanol strategaethau sydd heb ystyried y Gymraeg yn ddigonol, ac ar brydiau sy'n debygol o gael effaith negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith. Mae'r rhesymau dros hyn yn debygol o fod yn gyfuniad o ddiffyg dealltwriaeth a chydlyniad, diffyg adnoddau a heriau cyllidebol, a'r angen i gyrff cyhoeddus flaenoriaethu heriau tymor byr yn hytrach na'r datrysiadau tymor hirach.

Yn gyffredinol mae canfyddiadau adroddiad Archwilio Cymru ac adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn adlewyrchu ein profiad a'n tystiolaeth ni o'r ffyrdd mae cyrff cyhoeddus yn cynllunio ac yn gweithredu o safbwynt y Gymraeg. Er enghraifft, un o brif gasgliadau ein hadroddiad sy'n darparu trosolwg o gydymffurfiaeth â dyletswyddau iaith Gymraeg ar gyfer 2023-24[3] oedd bod tystiolaeth glir bod sefydliadau bellach â gwell capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel. Does dim dwywaith bod cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â safonau'r Gymraeg yn gwella a bod gan bobl fwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn sgil hyn.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**Camau i wella effeithiolrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i gweithrediad**

Mae'n debyg bod ystod o faterion y gellid eu hystyried er mwyn gwella effeithiolrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gwyddom fod tystiolaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ymchwiliad y pwyllgor[4] yn amlinellu nifer helaeth o opsiynau er mwyn gwella effeithiolrwydd y ddeddf. Bydd ein hymateb ni isod yn canolbwyntio ar un ffactor, sef y potensial sy'n bodoli i gryfhau'r ffordd rydym yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni'r nod llesiant o Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

2 Adroddiad-Cenedlaethaur-Dyfodol-2025.pdf
3 Adroddiad Sicrwydd 2023-24
4 SWFGA 10 - Comisiynydd Cenedlaethaur Dyfodol Cymru.pdf

Ym mis Ebrill fe wnaethom gyhoeddi ein Cynllun Strategol ar gyfer 2025-30[5]. Un thema amlwg sy'n rhedeg drwy ein cynllun strategol newydd yw ein hawydd i flaenoriaethu meysydd strategol pwysig, ac i weithredu mewn dull mwy rhagweithiol er mwyn cael y traweffaith mwyaf ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. O ran ein gwaith gyda sefydliadau cyhoeddus, rydym yn datgan bod y meysydd canlynol am fod yn flaenoriaeth i ni dros y pum mlynedd nesaf:

- Cynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn gweithleoedd
- Gwella trefniadau awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol i baratoi a gwerthuso strategaethau hybu 5-mlynedd
- Gwella gwasanaethau Cymraeg o fewn y sector iechyd a gofal, gan ganolbwyntio yn benodol ar weithio gyda Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIC i gynyddu cyfleoedd i bobl dderbyn gwasanaethau clinigol yn Gymraeg
- Cynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg
- Hyrwyddo defnydd gwasanaethau

Rydym yn ystyried bod gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gwaith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol â'r potensial i gefnogi cyflawniad ein hamcanion strategol. Rydym felly yn awyddus iawn i barhau cydweithio â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn arwain cynnydd ystyrlon yn y meysydd hyn.

Yn naturiol felly byddai unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd i wella effeithiolrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, neu sy'n cynyddu gallu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ddylanwadu ar gyrff cyhoeddus yn cael eu croesawu yn fawr. O safbwynt y Gymraeg yn benodol, credwn y dylai'r ffocws fod ar sut all y ddeddf a'r Comisiynydd ategu ac ychwanegu at y gwaith rydym ni yn ei wneud, a drwy hynny arwain at gynnydd cyflymach a mwy pellgyrhaeddol yn y ffordd mae cyrff cyhoeddus yn cynllunio a gweithredu o safbwynt y Gymraeg.

Yr eiddoch yn gywir,

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

---

[5] Cynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg 2025-30